

ACT DAU

TEULU A

CHYDBERTHNASAU

Ai rhieni sy'n gwybod orau bob amser ?

Amcanion

Ystyried y cydberthnasau rhwng rhieni a phlant sy'n cael eu cyfleu yn nramâu Shakespeare a sut y maent yn berthnasol i gynulleidfa fodern. Ymestyn a datblygu arddulliau ysgrifennu disgylion.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Saesneg, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac lechyd, Drama, Celf a Dylunio.

Sgiliau a rhagolygon

dinasyddiaeth

Cyfathrebu, cydweithio, meddwl yn greadigol, datblygu empathi.

Adnoddau angenrheidiol

Digon o le ar gyfer gwaith ymarferol, papur sgrap, taflen weithgaredd gyda lluniau llonydd, darnau mawr o bapur a pheniau, camerâu digidol, copïau o'r taflenni testun a mynediad i'r rhyngrywd.



FFOCWS DYSGU

Archwilio cydberthnasau teuluol yn nramâu Shakespeare. Ysgrifennu mewn arddulliau gwahanol a defnyddio ymsonau.

CYFLWYNIAD

Mae cydberthnasau yn thema bwysig mewn llawer o ddramâu Shakespeare, yn enwedig cydberthnasau teuluol.

Trafodwch y math o gydberthnasau sydd i'w gweld yn y ddrama rydych yn ei hastudio. A ydynt yn gydberthnasau rhwng rhieni a phlant, yn gydberthnasau rhwng ffrindiau, neu'n gydberthnasau rhamantus? A ydynt yn gweithio'n dda neu'n broblemus? Pa fath sydd fwyaf diddorol, yn eich tyb chi, i'w archwilio fel awduriol ac fel cynulleidfa?



© RSC. Llun gan Rob Freeman.

GWEITHGAREDDAU CYNHESU

- Gofynnwch i'r disgyblion symud yn rhydd o gwmpas lle agored.
- Anogwch hwy i wneud cyswllt llygad â'i gilydd wrth symud o gwmpas, gan wenu ar ei gilydd a chyd nabod ei gilydd heb siarad.
- Gofynnwch i'r disgyblion ymestyn hyn drwy gyfarch pobl wrth iddynt gerdded heibio iddynt, gan esgus eu bod yn:
 - hen ffrindiau.
 - brodyr neu chwiorydd sy'n casáu ei gilydd.
 - ffrind i'r teulu neu gymydog.

Gall hyn fod yn ffordd dda o gyflwyno'r syniad o wahanol gydberthnasau a sut y gellir eu cyfleu yn gorfforol. Gellid ymestyn neu addasu'r gwahanol ddewisiadau hyn, yn dibynnu ar y testun penodol rydych yn ei ddefnyddio. Er enghraifft, yn **Hamlet**, gallech gyflwyno'r syniad o fam a mab, neu gyda **King Lear** – merch uffudd.

Wedyn, anogwch hwy i ddefnyddio **Delweddu** i greu lluniau llonydd mewn parau er mwyn cyfleu'r cydberthnasau canlynol:

- Tad sy'n bygwth ei ferch am fod eisiau priodi dyn nad yw'n ei hoffi.
- Dau gariad sy'n cwrdd yn gyfrinachol.
- Rhywun yn amddiffyn ffrind sy'n ymladd.
- Tad sy'n alludio ei ferch am ei fod yn honni nad yw'n ei garu ddigon.
- Cwpl yn dadlau p'un a yw un ohonynt wedi bod yn anffyddlon.

Gofynnwch i'r myfyrwyr edrych ar rai o'r delweddau, yn enwedig os oes themâu cyffredin neu bethau tebyg rhwng dehongliad un grŵp a dehongliad grŵp arall.

Trafodwch beth sy'n digwydd pan fydd cymeriadau'n anghytuno. Sut y bydd hyn yn effeithio ar eu perthynas?

Gellir hefyd ymestyn y gweithgaredd hwn drwy ofyn i'r disgyblion greu ffrâm fferru – neu ffotograff – o grŵp o gymeriadau. Wrth iddynt greu eu delwedd, gofynnwch iddynt ystyried safle pob cymeriad a sut y gallant ddangos eu cydberthnasau yn y ddrama. Os ydych yn dymuno ystyried cydberthnasau o fewn teulu neu grŵp penodol, rhowch y proffiliau cymeriadau perthnasol i'r disgyblion.

ARCHWILIO THEMÂU, SGILIAU A GWERTHOEDD DINASYDDIAETH

?

CWESTIWN ALLWEDDOL

Pa fath o gydberthnasau y gallwch eu nodi yn eich bywyd chi?

Gofynnwch i'ch disgylion lunio map meddwl sy'n dangos yr holl gydberthnasau yn eu bywydau – gan ddechrau â'r teulu ac wedyn cynnwys ffrindiau, cyd-ddisgyblion, cymdogion, athrawon ac yn y blaen. Trafodwch y mapiau meddwl hyn fel dosbarth – pa gydberthnasau y mae eich disgylion yn meddwl sydd bwysicaf iddynt?

Beth yw rhai o'r heriau yn y cydberthnasau pwysig hyn? A fyddwch byth yn anghytuno neu'n gwrthdaro â'r bobl allweddol dan sylw? Sut y byddwch yn datrys hyn?

Rhannwch y cwestiynau archwiliadol 'Ai rhieni sy'n gwybod orau bob amser?' gyda'ch disgylion. Gofynnwch iddynt ddychmygu'r ystafell fel sbectwm a symud i ochr chwith yr ystafell os ydynt yn cytuno â'r cwestiwn, ac i ochr dde yr ystafell os ydynt yn anghytuno. Gofynnwch i un neu ddau o'r disgylion esbonio eu safle.

Efallai y byddwch am ymestyn y drafodaeth drwy ystyried pam y gallai fod yn bwysig i blant wrando ar oedolion. A allant feddwl am enghreiffiau lle bo plant am wneud pethau'n wahanol i ddymuniadau eu rhieni? Pwy sy'n iawn?

Gallwch ymestyn y trafodaethau hyn ymhellach drwy ofyn i'r grŵp drafod y cwestiynau canlynol:


- Sut y byddwch yn datrys gwrthdaro pan fyddwch yn anghytuno?
- Sut y gall cyfathrebu effeithiol helpu i ddatrys problemau ac anawsterau mewn cydberthnasau teuluol?

Byddwch yn ymwybodol y gall trafodaethau o'r fath fod yn sensitif i rai o'r disgylion yn eich dosbarth.



ARCHWILIO CYDBERTHNASAU RHWNG CYMERIADAU

Gallwch ddefnyddio Cerflunio – sef creu delweddau â siapiau'r corff – i archwilio cymeriadau a'r cydberthnasau rhyngddynt. Mae enghraifft o sut y gallai hyn weithio gyda Julius Caesar i'w gweld ar dudalen 58, ond gellir ei ddefnyddio gydag unrhyw destun.



© RSC. Llun gan Ellie Kurtz.

DADANSODDIAD MANWL – CYDBERTHNASAU AC YMSONAU

? CWESTIWN ALLWEDDOL

**Sut mae Shakespeare yn cyfleo
meddyliau cymeriad am ei
gydberthnasau a'i emosiynau yn
ei ddramâu?**

Mae gwrthdar o rhwng rhieni a phlant yn thema reolaidd mewn llawer o ddramâu Shakespeare. Mae'r ffordd y mae cymeriadau'n cyfathrebu â'i gilydd yn bwysig iawn o ran datblygiad eu cydberthnasau a sut maent yn deall ei gilydd.

Dangoswch glip fideo o **Romeo and Juliet, Act 3 Golygfa 5** i'r dosbarth, neu darllenwch y testun mewn grwpiau o dri.

! CYD-DESTUN

Yn ystod Romeo and Juliet, mae Juliet yn dewis priodi Romeo heb yn wybod i'w theulu, am eu bod yn disgwyl iddi briodi Paris.

Yn yr olygfa hon, nid yw tad Juliet yn ymwybodol ei bod eisoes wedi priodi Romeo, ac mae'n disgwyl iddi fod yn falch o glywed y newyddion ei bod yn mynd i briodi'r gwr y mae wedi'i ddewis iddi.

Yn yr un modd, yn A Midsummer Night's Dream, mae Hermia am briodi Lysander ond mae ei thad am iddi briodi Demetrius. Mae ei thad yn gofyn i'r Dug orfodi Hermia i briodi Demetrius, felly mae Hermia yn rhedeg i ffwrdd gyda Lysander.

Caiff rhywfaint o'r gwrthdar a welir yn **Romeo and Juliet** a dramâu eraill ei achosi gan y ffaith bod cymeriadau am gael annibyniaeth a rhyddid, a gan broblemau gyda chyfathrebu – problemau sy'n gyfarwydd iawn i ni. Pa gyngor y byddech yn ei roi i'r rhieni a'r plant yn y ddrada rydych yn ei hastudio?

Rhowch gopi o **Daflen Weithgaredd 1** i bob disgyl, gyda lluniau o olygfeydd mewn cynyrciadau o ddramâu Shakespeare sy'n cynnwys tadau a'u merched. Gofynnwch i'ch disgylion ychwanegu swigod siarad a meddwl at y lluniau, gan ddangos yn eu geiriau eu hunain yr hyn y gallai'r cymeriadau fod yn ei ddweud a'i feddwl ymhob llun.

Trefnwrch y disgylion mewn grwpiau bach. Rhannwrch yr ymsonau enghreifftiol a'r blychau cyd-destun o **Romeo and Juliet** a **Richard III**. Gofynnwrch i'r grŵp ddewis un, a darllen drwy'r testun, gan drafod a nodi'r hyn y maent yn credu y mae'r cymeriad yn ei deimlo a'i feddwl, a phagamau gweithredu y byddent am eu cymryd.

Defnyddiwr hyn i drafod fel dosbarth sut y mae Shakespeare yn defnyddio techneg yr ymson i ddatgelu meddyliau, teimladau a gweithredoedd bwriadedig cymeriad. Efallai y byddwr hefyd yn dymuno rhannu'r llinell yn yr arraith a gwahodd disgylion i greu delweddu ar gyfer pob un ohonynt. Gall hyn helpu i roi syniad i'r disgylion o'r delweddu sy'n cael eu defnyddio, yn ogystal â'r teimlad a'r emosiwn sy'n sail i'r testun.

Gosodwrch her i bob grŵp gydweithio i greu ymson mewn iaith fodern lle mae tad neu blentyn o un o ddramâu Shakespeare yn rhannu ei feddyliau a'i deimladau ynglyn â'i sefyllfa ac yn datgelu'r hyn y byddai'n hoffi ei ddweud a'i wneud.

DEFNYDDIR YMSONAU YN AML YNG NGWAITH SHAKESPEARE I DDANGOS MEDDYLIAU MWYAF CYFRIN CYMERIAD

Ystyr ymson yw arraith a gaiff ei thraddodi gan un cymeriad yn unig, heb ei chyfeirio at gymeriad arall ar y llwyfan. Weithiau, caiff yr areithiau hyn eu cyfeirio at y gynulleidfa, ac ar adegau eraill gallant ddatgelu meddyliau mwyaf cyfrin cymeriad. Gall ymsonau helpu'r gynulleidfa i ddeall bwriadau'r cymeriad, ond ar adegau gellir eu defnyddio i'w chamarwain hefyd. Efallai mai'r llinell agoriadol fwyaf adnabyddus o ymson Shakespeareaidd yw 'To be or not to be' o Hamlet.



ARCHWILIO YMSONAU

Un gweithgaredd a fydd yn eich helpu i archwilio ymson wrth astudio golygfa yw Darllen Distaw. Mae enghraiftt o sut y gallai hyn weithio gyda Julius Caesar i'w gweld ar dudalen 59, ond gellir ei ddefnyddio gydag unrhyw destun.

CYMHWYSO EICH DYSGU – GWEITHGAREDDAU TRAWSGWRICWLAIDD

Anogwch eich disgyblion i barhau i weithio yn eu grwpiau a thrafodwch sut y gallech gymhwysos'r enghreiffiau o gyfyng-gyngor ynghylch teulu a chyberthnasau mewn drama rydych yn ei hastudio at sefyllfa fodern. Trafodwch ble a sut y gallai hyn ddigwydd ac yna gofynnwch iddynt ailsgrifennu'r olygfa yn arddull sscript opera sebon fodern. Gallech ddangos glip o opera sebon neu raglen deledu boblogaidd arall fel ysbrydoliaeth.

Atgoffwch hwy i osod y cyfyng-gyngor ynghylch cyberthnasau mewn teulu modern a chynnwys cyfarwyddiadau llwyfan, ac y byddai'r rhaglen yn cael ei darlledu ar adeg pan mae teuluoedd yn gwylio'r teledu, felly byddai angen i'r iaith a ddefnyddir fod yn briodol i'r gynulleidfa hon. Yn olaf, gofynnwch iddynt sicrhau eu bod yn dod â'r olygfa i ben gyd diweddglo dramatig! Gofynnwch i'r disgyblion berfformio eu golygfa o flaen y dosbarth, neu ffilmchwch eu perfformiadau er mwyn eu rhannu â'r dosbarth.

AC I GLOI...

- A yw eu safbwytiau ynghylch y cwestiwn prifoclyd gwreiddiol wedi newid? Ai rhieni sy'n gwybod orau bob amser?
- Pa sgiliau a rhinweddau sy'n gallu helpu i gynnal cydberthnasau da â ffrindiau a theuluoedd?
- Ymchwiliwch i blotiau dramâu eraill Shakespeare sy'n cynnwys cymeriadau sydd â chyberthnasau problemus â'u rhieni. A ydyt i gyd yn gorffen mewn trasiedi?

GWEITHGAREDDAU YSGOL BARTNER

- Llwythwch y mapiau meddwl o'r ymarfer cyntaf i fyny i'ch man a rennir a'u cymharu â'r rheini a grëwyd gan eich ysgol bartner. Gallwch drafod yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddynt.
- Cyfnewidiwch ymsonau, sscriptiau opera sebon a pherfformiad â'ch ysgol bartner.



© RSC. Llun gan Ellie Kurttz.

Romeo and Juliet Act 3 Golygfa 5

Juliet Good father, I beseech you on my knees,
Hear me with patience but to speak a word.

Capulet Hang thee, young baggage, disobedient
wretch!

I tell thee what: get thee to church o'Thursday,
Or never after look me in the face.

Speak not, reply not, do not answer me:
My fingers **itch**. Wife, we scarce thought us blest
That God had lent us but this only child,
But now I see this one is one too much,
And that we have a curse in having her.
Out on her **hilding**!

You are to blame, my lord, to **rate** her so.

Capulet And why, my lady wisdom? Hold your tongue.

To Nurse

Good Prudence. **Smatter** with your gossips, go.

Nurse I speak no treason.

Lord Capulet O, **God-gi-good e'en**.

Nurse May not one speak?

Lord Capulet Peace, you mumbling fool!

Utter your **gravity** o'er a gossip's **bowl**,
For here we need it not.

Lady Capulet You are too hot.

Lord Capulet **God's bread**! It makes me mad!
Day, night; hour, tide, time, work, play,
Alone, in company, **still** my care hath been
To have her matched: and having now provided
A gentleman of noble parentage,
Of fair **demesnes**, youthful and nobly allied
Stuffed, as they say, with honourable **parts**,
Proportioned as one's thoughts would wish a man,
And then to have a wretched **puling** fool,
A whining **mammet in her fortune's tender**,
To answer 'I'll not wed, I cannot love,
I am too young, I pray you **pardon** me.'
But an you will not wed, I'll pardon you:
Graze where you will, you shall not house with me.
Look to't, think on't. I do not use to jest.
Thursday is near, lay hand on heart, **advise**:
An you be mine, I'll give you to my friend,
An you be not, hang, beg, starve, die in the streets,
For by my soul, I'll ne'er acknowledge thee,
Nor what is mine shall never do thee good.
Trust to't, bethink you. I'll not **be forsworn**. *Exit*

Yn Romeo and Juliet, Act 3 Golygfa 5, mae tad Juliet newydd ddweud wrthi ei bod yn rhaid iddi briodi Paris yr wythnos honno, ond mae hi a'r gynulleidfa'n gwybod ei bod eisoes yn briod â Romeo.



NODIADAU

itch: yn ysu i'th guro

hilding: menyw neu ferch anfoesol

rate: dweud y drefn, dwrdio

smatter: clebran, siarad yn anwybodus

God... e'en: cer i ffwrdd (yn llythrennol, noswaith dda)

gravity: geiriau doeth

bowl: cwpan i yfed ohono

God's bread: llw sy'n cyfeirio at y bara a ddefnyddir yn y sacrament Cristnogol, Cymundeb

still: bob amser

demesnes: tiroedd

parts: rhinweddau

puling: swnian

mammet: dol / rhywun gwan iawn

in... tender: pan fydd ffawd yn gwneud cynnig iddi

pardon: mae'r ystyr yn newid yma o 'esgusodi, maddau' i 'rhoi caniatâd i adael'

advise: ystyried

be forsworn: torri fy ngair



ADNODDAU

- Pensiliau
- Peniau

Ychwanegwch swigod meddwl a siarad i ddangos yr hyn y gallai'r tadau a'r merched hyn fod yn eu meddwl a'u dweud, yn eich tyb chi.



Romeo and Juliet Act 2 Golygfa 2

(Enter Juliet above)

Romeo But, soft, what light through yonder window
breaks?

It is the east, and Juliet is the sun.
Arise, fair sun, and kill the envious moon,
Who is already sick and pale with grief,
That thou her maid art far more fair than she:
Be not her **maid**, since she is envious:
Her **vestal livery** is but sick and green
And none but fools do wear it, cast it off.
It is my lady, O, it is my love!
O, that she knew she were!
She speaks yet she says nothing: what of that?
Her eye discourses: I will answer it.
I am too bold, 'tis not to me she speaks:
Two of the fairest stars in all the heaven,
Having some business, do entreat her eyes
To twinkle in their **spheres** till they return.
What if her eyes were there, they in her head?
The brightness of her cheek would shame those stars,
As daylight doth a lamp, her eyes in heaven
Would through the airy region stream so bright
That birds would sing and think it were not night.
See, how she leans her cheek upon her hand!
O, that I were a glove upon that hand,
That I might touch that cheek!

Yn Romeo and Juliet, Act 2 Golygfa 2, mae Romeo wedi torri i mewn i d'r teulu Capulet er mwyn iddo allu gweld Juliet unwaith eto, ar ôl cwrdd â hi am y tro cyntaf yn nawns ei thad y noson honno. Mae'n ei gweld yn y ffenestr.



NODIADAU

maid: dilynwr ffyddlon (i Diana, duwies Rufeinig y lleuad a diweirdeb)

vestal livery: dillad gwyryfol

spheres: credid bod orbitau, sêr a phlanedau wedi'u cynnwys o fewn sfferau consentrig a oedd yn cylchdroi o gwmpas y Ddaear



Richard III Act 1 Golygfa 1

King Richard III

Now is the winter of our discontent
Made glorious summer by this **son of York**:
And all the clouds that **loured** upon our house
In the deep bosom of the ocean buried.
Now are our brows bound with victorious wreaths,
Our bruised **arms** hung up **for** monuments,
Our stern **alarums** changed to merry meetings,
Our **dreadful** marches to delightful **measures**.
Grim-visaged war hath smoothed his wrinkled **front**,
And now, instead of mounting **barbed** steeds
To fright the souls of **fearful** adversaries,
He **capers** nimbly in a lady's chamber
To the lascivious **pleasing** of a lute.
But I, that am not shaped for **sportive** tricks,
Nor made to **court an amorous looking-glass**:
I, that am **rudely stamped**, and **want** love's majesty
To strut before a **wanton ambling** nymph:
I, that am **curtailed** of this fair proportion,
Cheated of **feature** by **dissembling** nature,
Deformed, unfinished, **sent before my time**
Into this breathing world, scarce half **made up**,
And that so lamely and **unfashionable**
That dogs bark at me as I **halt** by them —
Why, I, in this weak **piping** time of peace,
Have no delight to pass away the time,
Unless to see my shadow in the sun
And **descant** on mine own deformity.
And therefore, since I cannot prove a lover,
To **entertain** these fair well-spoken days.
I am **determined** to prove a villain
And hate the idle pleasures of these days.
Plots have I laid, **inductions** dangerous,
By drunken prophecies, libels and dreams,
To set my brother Clarence and the king
In deadly hate the one against the other.
And if King Edward be as true and just
As I am **subtle**, false and treacherous,
This day should Clarence closely be **mewed up**.
About a prophecy, which says that '**G'**
Of Edward's heirs the murderer shall be.
Dive, thoughts, down to my soul: here Clarence
comes.—

! TROSOLWG

Yn yr ymson agoriadol hwn, mae Richard yn disgrifio sut y mae Lloegr bellach mewn heddwch ar ôl rhyfel cartref. Ei frawd hwn, Edward, yw'r brenin, ond ni fydd yn ymuno â'r dathlu. Mae'n disgrifio ei hun fel 'rudely stamped', 'deformed' ac 'unfinished'. Mae'n addo dod yn ddyn drwg a chipio'r orsedd iddo ei hun, gan droi aelodau ei deulu yn erbyn ei gilydd. Er mwyn cyflawni hyn, mae Richard wedi dechrau cynllwyno yn erbyn ei frawd, Clarence, gan daenu sŵn er mwyn gwneud Edward yn amheus o Clarence.



NODIADAU

son of York: Brenin Edward IV. Ei dad oedd Dug Caerefrog

loured: gwgu'n fygythiol

arms: arfwisg, arfau

for: fel

alarums: galwad i ryfel / ymosodiadau sydyn

dreadful: ofnadwy, rhywbeth sy'n codi arswyd

measures: dawnsfeydd urddasol

front: talcen

barbed: arfog

fearful: wedi cael braw (neu o bosibl 'brawychus')

capers: dawnsfeydd gyda neidiau

pleasing: atyniad, hyfrydwch

sportive: pleserus/serchog

court... looking-glass: syllu'n gariadus arnaf fy hun mewn drych

rudely stamped: wedi'i ffurfio'n fras, gyda delwedd wedi'i phrintio'n fras arno

want: diffyg

wanton: fflyrtiog, anllad

ambling: mynd ling-di-long, cerdded ag osgo siglog

curtailed: amddifadus, wedi'i dorri'n fyr

feature: siâp dymunol

dissembling: twyllodrus, anonest

sent... time: h.y. wedi'i eni'n gynnar

made up: wedi'i ffurfio'n llawn

unfashionable: edrych yn rhyfedd, anghelfydd/afluniaidd

halt: cloffi

piping: main, gwan

descant: addasu byrfyfyr (term cerddorol), h.y. myfyrio

entertain: mynd heibio'n bleserus

determined: penderfynol/wedi'i arfaethu

inductions: camau cychwynnol, paratoadau

subtle: cyfrwys, slei, ffals, anonest, anffyddlon

mewed up: wedi'i garcharu, wedi'i gau i mewn (fel aderyn ysglyfaethus mewn cawell)

about: o ganlyniad i

'G': enw cyntaf Clarence yw George

ADNODDAU YCHWANEGOL

Mae clipiau i'w gwyllo ar gael ar-lein yn

<https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/list/shakespeare-lives>